PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Lay, Mackie, Wong a/ac Wood |

43 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Owen.

44 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Patel | Eitem 7 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Lay | Eitem 7 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Mackie | Eitem 7 | Yn byw yn Heol y Porth a drafodir yn yr adroddiad |

45 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

46 : RHAGLEN RHEOLI RISG ARFORDIROL (I DDILYN)

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cabinet yn disgwyl adroddiad o'r enw 'Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol' yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad yn ceisio rhoi briff i'r Cabinet ar gyflwr cyfredol amddiffyniadau arfordirol Caerdydd a Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru. Gofynnir i'r Cabinet ystyried cymeradwyo ymrwymiad y Cyngor i gaffael proses dylunio ac adeiladu amddiffyniadau arfordirol manwl gwerth £11 miliwn. Derbyniodd y Pwyllgor gopi drafft o adroddiad y Cabinet yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried adroddiad y Cabinet. Roedd crynodeb o rai o'r prif bwyntiau yn yr adroddiad wedi'i gynnwys, fel a ganlyn:

- Daeth yr asesiad Amddiffynnydd Arfordirol Blaendraeth Rover Way, Mott MacDonald a wnaethpwyd yn 2009 i'r casgliad fod yr amddiffyniadau ad hoc sydd ar waith ar hyd Rover Way mewn cyflwr gwael, a dan ganllawiau sefydledig, na fyddent yn para'n fwy na'r byrdymor i'r tymor canolig.

- Nododd adroddiad a wnaethpwyd gan Atkins, Asesiad Risg Erydu Arfordirol Cyngor Caerdydd, 2013, fod y cyfraddau erydu arfordirol yn Rover Way yn gyfartal â'r cyfraddau erydu arfordirol uchaf yn Ewrop.

- Gwnaeth Rhaglen Reoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru (CRMP) ymrwymiad trwy sicrhau bod £150 miliwn ar gael i'w benthyca i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni pwysau ariannol – gall y gronfa ddarparu cyfraniad o hyd at 75% i gefnogi projectau rheoli risgiau llifogydd arfordirol.

- Bu Cyngor Caerdydd yn llwyddiannus wrth sicrhau arian cyfwerth â 100% gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol.

- Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cyflwyno'r achos busnes a chynllun gweithredu ar gyfer Amddiffyniadau Arfordirol Caerdydd rhwng Rover Way yn y gorllewin a Ffordd Lamby yn y dwyrain.
- Nod y project yw gwella'r amddiffyniadau afonol ac arfordirol cyfredol i amddiffyn pobl ac eiddo'n well o erydu arfordirol a risg llifogydd , ac atal y ddau safle tirlenwi wedi'u datgomisiynu rhag erydu - Tomen y Frag a Safle Tomen Ffordd Lamby.

- Manylion graddau llifogydd a ragwelwyd ar gyfer digwyddiad AEP 0.5% yn 2017, 2037, 2067 a 2117. Rhoddodd Diagram 2 sydd yn yr adroddiad restr fer o ddewisiadau ar gyfer pob ardal yn y maes astudiaeth.

- Os na cheir dim ei wneud, amcangyfrif y bydd yr ardal i orllewin Afon Rhymni yn parhau i erydu, gyda thua 30m o giliad wedi'i ddisgwyl erbyn 2036, 50m erbyn 2067 a 170m erbyn 2117, ar sail cyfraddau erydu a ragwelir a chan ystyried codiad a ragwelir yn lefel y môr.

- Dan y Senario Gwneud Dim hwn, mae 249 o eiddo preswyl a 2 eiddo amhreswyl mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd dan ddigwyddiad AEP 0.5%, fydd yn cynyddu o1212 o eiddo preswyl a 209 o eiddo amhreswyl erbyn 2117 gyda chodiad yn lefel y môr.
- Rhagwelir y bydd blaen arfordirol tomen Ffordd Lamby, i ddwyrain Afon Rhymni, yn parhau i erydu. Bydd hyn yn arwain at domen Ffordd Lamby yn erydu a deunyddiau wedi'u halogi'r tomen yn cael eu rhyddhau yn Aber Afon Hafren ymhen 20 o flynyddoedd a fyddai'n fwy na thebyg yn cael effaith amgylcheddol sylweddol ar yr aber.

Disgrifiwyd prif amcanion y project yn Nhabl 1 Atodiad 1 yr adroddiad. Y prif amcanion yw:

- Lleihau a rheoli risg llifogydd arfordirol i bobl ac asedau mewn rhan o dde-ddwyrain Caerdydd ar gyfer y 100 o flynyddoedd nesaf, gan ystyried newid yn yr hinsawdd a ragwelir yn y dyfodol.

- Rheoli erydu ar hyd yr arfordir i leihau'r risg o amddiffyniadau llifogydd arfordirol sy'n methu a rhyddhau deunyddiau tomen yn Aber Afon Hafren o Domen Ffordd Lamby a Thomen Frag Rover Way, yn y dyfodol agos a thros y 100 o flynyddoedd nesaf.

- Cyflawni buddion ehangach ochr yn ochr rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol, wedi'u halinio â Nodau Llesiant LIC a chyda gweledigaeth LIC a CDC ar gyfer datblygu a thwf economaidd yr ardal.

- Gweithredu opsiwn rheoli risgiau erydu a llifogydd arfordirol sy'n fforddiadwy dros y 100 o flynyddoedd nesaf.

- Amddiffyn nodweddion cyfredol gwerth cadwraeth natur a cheisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy wella cynefinoedd cyfredol.

- Creu opsiynau peirianyddiaeth sy’n ddichonadwy yn dechnegol ac y gellir eu hadeiladu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau yr ystyriwyd y 8 opsiwn ar y rhestr fer ar gyfer cynlluniau amddiffyn arfordirol. Rhoddodd yr adroddiad fanylion o bob un o’r cynlluniau wedi’u hystyried yn Nabl 2 Atodiad 1. Ar sail asesiadau , dewiswyd opsiwn 6 fel y dewis opsiwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu trwy grantiau'r gwaith o ddatblygu achos busnes amlinellol a nododd fod costau mynegol ar gyfer y cynllun yn dod i £11 miliwn (dylunio - £1 filiwn ac adeiladu £10 miliwn). Mae’r Rhaglen Reoli Risgiau Arfordirol yn cymryd y byddai Llywodraeth Cymru’n cefnogi 75% o’r costau dylunio ac adeiladu (£8.25 miliwn) ac y byddai’r Cyngor yn ariannu’r balans (£2.75 miliwn).

Yr argymhellion yn adroddiad drafft y Cabinet yw:

- Caffael dylunio ac adeiladu manwl yr amddiffyniadau arfordirol gwerth £11 miliwn.
- Bydd y cyllid ar raniad 75% gan Lywodraeth Cymru a 25% gan Gyngor Caerdydd.

- Ymrwymo’r cyllid angenrheidiol o 25% i ddarparu’r amddiffyniadau arfordirol yn unol â Rhaglen Reoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru.

- Ailasesu’r cynllun yn dilyn cwblhau’r dyluniad manwl i gadarnhau goblygiadau ariannol adeiladu a dichonoldeb.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd; Matt Wakelam, Rheolwr Gweithredol Seilwaith a Gweithrediadau a Gary Brown, Rheolwr Gweithredol Asedau, Peirianyddiaeth a Gweithrediadau. Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael, i roi datganiad.

Dywedodd y Cynghorydd Michael fod yr adroddiad y disgwylir iddo gael ei ystyried gan y Cabinet wedi cael cyfnod cyfebru hir. Cyhoeddwyd adroddiad Mott Macdonald yn gyntaf yn 2009 ac mae wedi cymryd o’r adroddiad hwnnw i gyrraedd y sefyllfa gyfredol. Mae erydu arfordirol yn fater byd-eang; mae tua 65% o boblogaeth y byd yn byw ar yr arfordir. Yng Nghaerdydd, mae bygythiad difrifol wrth aber Afon Rhymni sy’n bygwth safle tirlenwi Ffordd Lamby a’r safle Teithwyr a rhaid i’r awdurdod fyned i’r afael â’r mater.

Cyflwynodd y swyddogion yr adroddiad. Cafodd y Pwyllgor ei wahodd i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cadarnhaodd swyddog fod y cyllid gwerth £8.25 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn grant un tro nad oes angen ei ad-dalu.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y rhaniad 75%-25% yn gymhareb sefydlog neu a fyddai costau eraill yn cael eu gosod ar y Cyngor.
  Dywedodd yr Aelod cabinet y gofynnir i'r Cabinet symud i'r cam dylunio yn unig. Byddai'r gymhareb yn parhau i fod yn gyson. Cadarnhaodd swyddogion fod yr holl bartïon, yn ystod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, yn ymwybodol y gallai'r sylfaen costau newid o bosibl a bod hynny'n ffurfio rhan o'r cytundeb wrth i ni symud ymlaen.

- Nododd yr Aelodau fod nifer o'r opsiynau'n debyg a gofynnon nhw pam dewiswyd opsiwn 6 fel y dewis opsiwn.
  Credodd y swyddogion fod angen i'r cynllun fod yn ystyriol o'r amgylchedd, er nad oedd modd osgoi rhywfaint o beirianyddiaeth galed.

- Gofynnwyd i'r swyddogion esbonio'r effaith amgylcheddol o beidio â gweithredu, yn enwedig y goblygiadau ar gyfer safle tirlenwi Ffordd Lamby.
  Dywedodd swyddog y byddai peidio â gweithredu yn rhoi safle tirlenwi Ffordd Lamby mewn perygl o erydu arfordirol. Y canlyniad fyddai haelogi'r aber. Mae cost waredu'r safle tirlenwi yn afresymol ac, felly, nid ystyriwyd yr opsiwn hwn. Roedd difrod eisoes yn digwydd ac roedd angen brys i weithredu i amddiffyn nid yn unig y ddau safle tirlenwi, ond hefyd y Safle Teithwyr a'r ffatri Trin Dŵr Cymru.

- Roedd yr aelodau o blaid cynnwys y llwybr arfordirol yn y dyluniad.
  Nododd y swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn ariannu agweddau i amddiffyn yr ardal arfordirol a bydd angen i welliannau i'r llwybr arfordirol fodloni meini prawf Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymestyn y cynllun y tu hwnt i aber Afon Rhymni.
  Dywedodd y Pwyllgor y byddai Morglawdd Bae Caerdydd yn amddiffyn gweddill y Ddinas ac mai aber Afon Rhymni oedd yr unig ardal oedd yn cael ei hystyried. Amcangyfrifir mai 100 o flynyddoedd yw oes y cynllun.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai'n cynllun at fwy o erydu ar hyd yr arfordir ac a oes astudiaethau wedi bod ar sut byddai'r cynllun yn effeithio ar leoliadau eraill.
  Dywedodd swyddogion fod project Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr arfordir cyfan a bydd opsiynau i amddiffyn ardal megis Gwynllwg.

- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o fanylion ar gostau pob opsiwn sy'n cael ei ystyried a'r rhesymeg a ddefnyddiwyd i werthuso pob opsiwn.
  Dywedodd swyddogion fod y gwerthusiad yn ystyried costau ac effaith amgylcheddol. Roedd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn gwybod am y wybodaeth hon a chytunodd Llywodraeth Cymru â'r dewis opsiwn hefyd. Credodd aelodau'r Pwyllgor y byddai'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r opsiynau amrywiol wedi bod yn ddefnyddiol.

- Nododd swyddogion y byddai’r cam dylunio ar gyfer y project yn para am tua blwyddyn ac y byddai’r cam adeiladu'n para am 2 flynedd.
  Nid oes mesurau lleihau realistig y gellir eu cymryd yn y byrdymor. Fodd bynnag, wrth adeiladu gwneir ymdrechion i ganolbwyntio ar ardaloedd risg uchel.

- Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o adael i’r afon erydu'r arfordir er mwyn creu ystumllyn. Dywedodd swyddogion y byddai hyn yn effeithio ar safle tirlenwi Ffordd Lamby ac y byddai symud yn rhan honno o’r safle tirlenwi yn codi costau. Mae’n bosibl yr effeithir ar gynllun Amddiffyn Nant Lleucu hefyd a byddai barn gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hynny. Teimlodd swyddogion nad oedd yn ddichonadwy newid dynamig yr afon a chredodd mai gosod byrddau yw’r unig opsiwn yn y lleoliad hwn, gan y byddai hyn yn amddiffyn y safle tirlenwi ac na fyddai’n newid dynamig yr afon.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 47 : STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU – 2018 TAN 2021 (I DDILYN)

PENDERFYNWYD – bod yr eitem hon yn cael ei gohirio.

## 48 : MAN CLADDU NEWYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi brîff i’r aelodau ar ddarparu man claddu newydd yn y Ddinas. Dywedwyd wrth yr aelodau y disgwylir i’r Cabinet dderbyn adroddiad o’r enw ‘Man Claddu Newydd’ ar 15 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu tir y Cyngor i ogledd yr M4 ar gyfer man mynwent newydd.

Mae nifer yr amlosgfeydd wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar ond cladd yw'r dewis opsiwn ar gyfer llawer o bobl o hyd. Mae’r ystadegau yng Nghaerdydd yn adlewyrchu’r darlun cenedlaethol, bod 70/30 o blaid amlosgi. Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn claddu 1,350 o bobl y flwyddyn, y mae 800 ohonynt yn feddau maint llawn, ac yn claddu 550 o weddillion wedi’u hamlosgi. Yng Nghaerdydd mae angen tua 0.5 erw o dir y flwyddyn ar gyfer claddedigaethau.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod nifer o safleoedd wedi’u hystyried gan swyddogion. Mae wedi bod yn dasg heriol i fodloni’r holl feini prawf allweddol, megis addasrwydd tir a lleoliad hygyrch. Mae gwaith i ystyried tir claddu ar gyfer dwyrain y ddinas yn parhau.

Mae’r dewis leoliad yn cynnwys ardal o 12.5 erw ac mae’n llai na 650 metr o’r fynwent gyfredol yn Nraenen Pen-Y-Graig. Felly, mae’n cynnig y budd o allu gael ei reoli o'r safle cyfredol ac mae'n sicrhau nad yw costau gweithredol yn cael eu cynyddu'n sylweddol. Mae costau cyfalaf hefyd yn sylweddol is gan nad oes angen i adeiladu swyddfeydd, cyfleusterau i staff a lle storio peiriannau. Byddai’r safle yn cynnig man claddu ar gyfer tua 5,500 o feddau newydd, a fyddai’n ddigon ar gyfer 25 o flynyddoedd ar y gyfradd gyfredol, gyda 4,000 o feddau pellach yn cael eu cadw wrth gefn.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y safle yn destun prydles tenantiaeth fferm busnes sydd â 18 o flynyddoedd ar ôl ar hyn o bryd. Mae'r llesdeiliad yn gweithredu'r safle ar gyfer pori. Mae'r tenant yn agored i drafodaethau i ddod o hyd i ganlyniad sy'n gydfuddiol.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

49 : YSTYRIED ADRODDIAD DRAFFT Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL O'R ENW 'GWELLA ANSAWDD AER CAERDYDD – YMARFER GORCHWYL A GORFFEN'

*Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

| | |
|---|---|
| *Y Cynghorydd Mackie* | *Fel preswylydd Heol Y Porth* |
| *Y Cynghorydd Lay* | *Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd* |
| *Y Cynghorydd Patel* | *Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd* |

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu argymhellion drafft o Adroddiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw ' Gwella Ansawdd Aer Caerdydd'. Trafododd y Pwyllgor pob un o'r argymhellion yn ei dro a gofynnwyd i'r aelodau wneud sylwadau a rhoi adborth.

Nododd aelod y cafwyd tri diwrnod lle nad oedd llawer o draffig ar y ffyrdd yn ystod y cyfnod diweddar o eira trwm. Gofynnodd aelodau a oes unrhyw ddata ar ansawdd aer sydd ar gael ar gyfer y cyfnod hwn, gan ei bod yn debygol o ddarparu tystiolaeth gref i ategu nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad. Credodd y Pwyllgor y byddai'n werth chweil ymchwilio i'r ffaith a oes unrhyw dystiolaeth ategol ar gael.

Nododd y Pwyllgor fod 81,800 o gymudwyr i'r ddinas bob dydd a chytunodd yr aelodau na all yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r mater ar ei ben ei hun. Holodd yr aelodau a fyddai'n bosibl annog cymudwyr i beidio â dod â'u ceir i Gaerdydd. Cytunodd yr aelodau y byddai'r project Metro yn helpu ond ar hyn o bryd nid oedd llawer o ddewisiadau dichonadwy eraill ar waith.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu y byddai gan yr Aelodau gyfle arall i adolygu ymhellach yr argymhellion yn yr adroddiad yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Ebrill.

50 : RHAGLEN WAITH

Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith ddrafft ac yn enwedig y cyfarfodydd ym mis Ebrill a mis Mai. Mynegodd yr aelodau bryderon pe bai naill ai o'r ddau agenda yn orlawn yna ni fyddai'r Pwyllgor yn gallu rhoi ystyriaeth briodol i'r eitemau agenda.

Cytunodd yr aelodau i ystyried y Strategaeth Rheoli Gwastraff ddrafft, Rhwydwaith Gwres y Rhanbarth ac argymhellion yr Ymholiad Gorchwyl a Gorffen ar Ansawdd Aer yn y cyfarfod ym mis Ebrill. Nid oedd y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod ym mis Mai wedi newid.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trafod opsiynau ar gyfer Ymholiad Gorchwyl a Gorffen ar sy'n dod ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.

51 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 17 Ebrill 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm